Archwilio Cymru
Audit Wales

# Twristiaeth Gynaliadwy – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro


Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2905A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel rhan o’r gwaith a wnaed yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o’r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod yn arwain o ran twristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond mae angen iddo fynegi ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau, a chynnwys cymunedau a busnesau'n llwyr yn y broses o roi'r agenda hon ar waith 7

Atodiadau

Atodiad 1: Methodoleg 16

Atodiad 2: Safbwynt cenedlaethol: twristiaeth gynaliadwy ym mharciau cenedlaethol Cymru 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth y gwnaethom ei adolygu, a pham?

1 Mae tri pharc cenedlaethol Cymru yn gyrchfannau adnabyddus ar gyfer ymwelwyr, ac mae eu statws yn darparu delwedd brand gref sy'n estyn tu hwnt i'w ffiniau. Ar adeg pan fo niferoedd yr ymwelwyr yn cynyddu, mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi gweld cynnydd yn yr angen i warchod rhinweddau arbennig eu hardaloedd, o ystyried pwysau twristiaeth gynyddol ar y parciau.

2 Ers tro, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y parciau cenedlaethol wedi cynnwys ffocws ar dyfu twristiaeth a hamdden awyr agored mewn ffordd gynaliadwy, ac ar ymgysylltiad rhagweithiol â darparwyr twristiaeth i bennu sut y gallant gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd yr ardal.

3 Mae'r cyd-destun polisi ehangach hefyd yn cynnwys uchelgais Llywodraeth Cymru am i'r economi ymwelwyr 'dyfu twristiaeth er budd Cymru'[1]. Mae'r llythyr cylch gwaith strategol a gyhoeddwyd gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2021 yn cadarnhau rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran datblygu twristiaeth a hamdden awyr agored cynaliadwy[2].

**Arddangosyn 1: diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy**

UNWTO
World Tourism Organization

'Twristiaeth sy'n ystyried yn llwyr ei heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan roi sylw i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd, a'r cymunedau sy'n lletya ymwelwyr.'

Ffynhonnell: https://www.unwto.org/sustainable-development

[1] Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Gorffennaf 2018

[2] Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025

4 Gall rheoli mynediad, twristiaeth a'i heffaith fod yn her i awdurdodau'r parciau cenedlaethol. O ran cyfran, ychydig iawn o dir y maent yn berchen arno o fewn y parciau cenedlaethol, ac nid ydynt yn rheoli'n uniongyrchol strategaethau twristiaeth a rheoli cyrchfannau cenedlaethol na rhanbarthol[3]. Daeth y tensiynau rhwng dau ddiben statudol a dyletswydd statudol awdurdodau'r parciau cenedlaethol i'r amlwg pan fu i ymwelwyr heidio i'r parciau mewn niferoedd nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen pan laciwyd y cyfyngiadau.

5 O'r herwydd, mae COVID-19 wedi tanlinellu rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran hyrwyddo a rheoli twristiaeth. Mae economi leol pob parc yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth, ond mae angen ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau nad yw'r dirwedd naturiol, bioamrywiaeth, na chymunedau lleol yn cael eu gorlethu a'u gadael, at ei gilydd, ar eu colled o'r herwydd.

## Beth y gwnaethom ei ganfod?

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn hwn: **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall i reoli twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol yn y Parc Cenedlaethol?** Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Hydref 2021 a mis Chwefror 2022.

7 Yn gyffredinol, bu inni ganfod yr hyn a ganlyn: **Mae'r Awdurdod yn arwain o ran twristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond mae angen iddo fynegi ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau, a chynnwys cymunedau a busnesau'n llwyr yn y broses o roi'r agenda hon ar waith.**

8 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- drwy'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan, mae'r Awdurdod yn helpu i greu gweledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy;
- mae'r Awdurdod yn cydweithio'n dda ag eraill, ond mae angen iddo sicrhau bod partneriaid yn gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'i ddiben statudol, a'u bod yn ei helpu i'w gyflawni;
- mae angen i'r Awdurdod ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymunedau a busnesau i ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr.

[3] Deddf yr Amgylchedd 1995

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r argymhellion a bennwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Creu gweledigaeth**<br>A1 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn diffinio'n glir ei ganlyniadau o ran twristiaeth gynaliadwy, ac yn ailedrych ar y camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau eu bod yn gyson â'r canlyniadau hyn.<br>**Cyfathrebu**<br>A2 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu effeithiolrwydd y gwaith hyrwyddo y mae'n ymgymryd ag ef ar hyn o bryd i roi sicrwydd ei fod yn gwneud popeth y gall i hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac i helpu i'w rhoi ar waith.<br><br>**Defnyddio data**<br>A3 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu'r modd y mae'n defnyddio data i hyrwyddo ac i reoli twristiaeth, a'i fod yn mynd ati'n benodol:<br>• i adolygu'r ffynonellau data presennol sy'n darparu data am effaith ymwelwyr ar y Parc, ac i bennu unrhyw fylchau posibl o ran deall ymddygiad ymwelwyr;<br>• i bennu dangosyddion sy'n caniatáu i'r Awdurdod fesur effaith gweithgareddau i wasgaru ymwelwyr i rannau eraill o'r Parc;<br>• i fynd ati'n rheolaidd i adolygu tueddiadau o ran demograffeg, ymddygiad ac effaith ymwelwyr i sicrhau bod modd i'r Awdurdod dargedu adnoddau'n fwy effeithiol.<br><br>**Cynnwys cymunedau**<br>A4 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu'r modd y mae'n ymwneud â:<br>• phartneriaethau lleol – cydweithio â nhw i ddod i ddeall yn well y pwysau ar gymunedau penodol;<br>• cymunedau lleol – cydweithio â nhw i bennu ac i drin a thrafod datrysiadau i fynd i'r afael â phryderon o ran gordwristiaeth. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Awdurdod yn arwain o ran twristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond mae angen iddo fynegi ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau, a chynnwys cymunedau a busnesau'n llwyr yn y broses o roi'r agenda hon ar waith

### Drwy'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan, mae'r Awdurdod yn helpu i greu gweledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy

9 I ymgorffori cynaliadwyedd yn y broses o reoli twristiaeth, mae angen gweledigaeth glir a chynlluniau eglur a phendant sy'n nodi'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn ddull cynaliadwy o weithredu, a sut y bydd yn cydweithio â phartneriaid i ddod i gonsensws y cytunir arno. Heb gynllunio gofalus, gall unrhyw fwriadau da i dyfu twristiaeth effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd, bioamrywiaeth a chymunedau, yn ogystal ag ymrwymiadau a chynlluniau ehangach yr Awdurdod.

#### Mae cynlluniau'r Awdurdod yn gydnaws â blaenoriaethau'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan

10 Cynllun statudol trosfwaol yr Awdurdod i oruchwylio ei ddau ddiben yw Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-24[4]. Un o flaenoriaethau'r cynllun yw i'r Awdurdod gydweithio'n effeithiol â Phartneriaeth Rheoli Cyrchfan Sir Benfro sy'n gweithredu o dan faner 'Visit Pembrokeshire'. Mae Cynllun Rheoli'r Awdurdod yn gydnaws iawn â Chynllun y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan[5], a'i ffocws ar dyfu economi Sir Benfro mewn ffordd gynaliadwy. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fodd bynnag, mae'r pandemig wedi llesteirio uchelgais y cynlluniau hyn.

11 I wireddu'r cynlluniau hyn, fe'u hategir gan Gynllun Gweithredu ar Reoli Hamdden ac Ymwelwyr yn Gynaliadwy 2020-24. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar reoli effaith andwyol gweithgareddau twristiaeth, ac mae'n cynnwys 30 cam gweithredu y mae'r Awdurdod yn gyfrifol am eu rhoi ar waith. Mae'r cynllun yn dangos camau gweithredu clir, amserlenni, arweinydd pob cam gweithredu, adnoddau, statws, a manylion am gynnydd. O blith y 30 cam gweithredu a restrir yn y Cynllun, mae 15 ar y gweill, 14 yn rhai parhaus, ac un wedi llithro tu ôl i'r targed.

[4] https://www.arfordirpenfro.cymru/awdurdod-y-parc-cenedlaethol/cynllun-rheolir-parc-cenedlaethol/

[5] https://www.visitpembrokeshire.com/wp-content/uploads/Cynllun-Rheoli-Cyrchfan-Sir-Benfro-2020-2025.pdf

**Arddangosyn 3: Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Visit Pembrokeshire**

**Partneriaeth Rheoli Cyrchfan – Visit Pembrokeshire**

- Fe'i ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2020
- Mae'n sefydliad sy'n cael ei arwain gan fasnachwyr ac yn cynnwys busnesau o bob rhan o Sir Benfro, ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, Pembrokeshire Tourism, a grŵp gwirfoddol PLANED
- Ei huchelgais yw tyfu twristiaeth er budd Sir Benfro drwy:
  - Dyfu'r economi ymwelwyr
  - Estyn y tymor twristiaeth
  - Ymgysylltu mwy â busnesau twristiaeth
  - Hybu enw da Sir Benfro drwy beri iddi fod yn un o'r pum prif gyrchfan o ddewis yn y Deyrnas Unedig
- Trosglwyddwyd swyddogaethau marchnata twristiaeth Cyngor Sir Penfro iddi yn 2020
- 16.8,000 o ddilynwyr ar Instagram/18,000 o ddilynwyr ar Twitter

## Mae angen i'r Awdurdod gryfhau'r modd y mae'n defnyddio data i reoli'n well yr ymatebion i niferoedd cynyddol o ymwelwyr ac i fesur yr effaith hon

12 Mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod bylchau yn y data o ran effaith ymwelwyr. Yn 2019, canfu arfarniad cynaliadwyedd mewnol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol nad oedd ystadegau am niferoedd yr ymwelwyr ar gael yn gyffredinol, a bod bwlch o ran gwybodaeth fanwl am y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a'u heffaith ar yr amgylchedd, ar breswylwyr, ac ar ddefnyddwyr eraill y Parc Cenedlaethol. Ers hynny, mae'r Awdurdod wedi dechrau archwilio dadansoddiadau data mwy cymhleth o ran gweithgareddau ymwelwyr, gan gysylltu â phartneriaid eraill; ond, mae bylchau'n parhau, ac mae hynny'n peri iddi fod yn anodd deall yn union beth yw bwriadau ymwelwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod i gyfeirio adnoddau'n effeithiol ac i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Clywsom hefyd fod bylchau o ran data sylfaenol am fioamrywiaeth yn peri iddi fod yn anodd monitro hyd a lled y colledion ar ôl cyfnodau o dwristiaeth gynyddol neu newidiadau o ran gweithgarwch.

13 Er bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu cynllun, mae'r canlyniadau'n llai clir. Er enghraifft, nid yw'r cynllun yn ystyried effaith cynnydd yn nifer yr ymwelwyr na sut y bydd y math newydd o ymwelydd yn sgil y pandemig yn cael ei fonitro, ac fe allai ddangos yn well sut y bydd yr effaith ar gymunedau a'r amgylchedd yn cael ei

rheoli. Nid yw ychwaith yn glir o'r cynllun pa ddata neu ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur llwyddiant.

14 Yn yr un modd, nid yw'r Awdurdod wedi pennu llinell sylfaen gyflawn o ran cyflwr bioamrywiaeth, ac mae hynny'n peri iddi fod yn anodd pennu'r cysylltiadau rhwng cynnydd mewn twristiaeth a dirywiad bioamrywiaeth, yn awr ac yn y dyfodol. I fynd i'r afael â hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu cydweithio ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill i ddatblygu Dangosyddion Twristiaeth Gynaliadwy a fydd yn canolbwyntio ar dwristiaeth adferol ac yn pennu camau i'w cymryd ar y cyd a chamau i rannu gwybodaeth ac adnoddau o ran twristiaeth gynaliadwy. Bwriedir cwblhau'r gwaith hwn erbyn 2022, a bydd yn sicrhau bod modd i'r Awdurdod ddangos effaith ei waith yn well.

15 Mae'r Awdurdod wedi diffinio'r modd y bydd yn mynd ati i reoli twristiaeth gynaliadwy fel a ganlyn: 'sicrhau bod twristiaeth a gweithgareddau hamdden yn ystyried rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ac nad ydynt yn andwyol iddo'. Byddai'n fuddiol pe bai'r Awdurdod yn nodi'n union sut y bydd yn hyrwyddo ac yn rheoli twristiaeth i wella cymunedau lleol mewn ffordd gadarnhaol, a sut y bydd hynny'n arwain at welliant net o ran ymdrechion cadwraeth a bywyd gwyllt.

16 Yn ystod ein hadolygiad, canfuwyd yn gyffredinol fod yr aelodau staff ac Aelodau'r Awdurdod a gafodd eu cyf-weld yn deall egwyddorion bras twristiaeth gynaliadwy, ond ceir rhywfaint o anghysondeb o ran sut y maen nhw a rhanddeiliaid yn ystyried amcanion twristiaeth gynaliadwy'r Awdurdod. Ceir gwahaniaethau o'r naill faes gwasanaeth i'r llall o ran yr hyn y mae aelodau staff yn ei ystyried yn gynaliadwy, a pha un a oes gan yr Awdurdod bwerau i gyflawni twristiaeth gynaliadwy, a chyfrifoldebau dros wneud hynny, mewn gwirionedd. Dywedodd rhai aelodau staff wrthym fod y term hefyd yn anodd ei ddiffinio, a bod hyn yn peri iddi fod yn anodd i'r Awdurdod fonitro effaith. Felly, mae angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo gweledigaeth yr Awdurdod, yn fewnol ac ymhlith rhanddeiliaid allanol.

17 Drwy gydweithio da, bu modd i'r Awdurdod gael gafael ar ragor o ddata sydd ym meddiant partneriaid, ac mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i ddadansoddi ac i ddeall twristiaeth a'i heffaith ac yn helpu i siapio ei ymatebion. Un enghraifft yw prosiect Wales Activity Mapping[6] sy'n cael ei letya gan Fforwm Arfordir Sir Benfro a'i ariannu'n rhannol gan yr Awdurdod. Mae'r mapio rhyngweithiol yn darparu gwybodaeth safle-benodol am y math o weithgareddau hamdden, swm y gweithgareddau hynny a'u dosbarthiad ar hyd arfordir y De-orllewin i helpu i ddeall ac i reoli gweithgareddau hamdden i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor twristiaeth a'r diwydiant hamdden. Mae'r offeryn yn sicrhau bod modd gwneud cymariaethau hirdymor ar sail llinell sylfaen 2010, gan ddangos y mannau lle y mae'r lefelau defnydd wedi newid. Er gwaethaf cyfyngiadau'r offeryn (ni chafodd ei ddiweddaru ers 2019), gallai'r data hyn fod yn effeithiol o'u defnyddio ar y cyd â data allweddol eraill, fel tueddiadau traffig, gweithgarwch bywyd gwyllt, a mesurau bioamrywiaeth.

18 I fynd ati'n effeithiol i fonitro pa mor llwyddiannus y mae'r Awdurdod o ran mynd i'r afael â'i flaenoriaethau twristiaeth gynaliadwy, mae angen diffinio'r canlyniadau'n

[6] Mapio GIS – Fforwm Arfordir Sir Benfro

glir ym mhob polisi perthnasol a phob strategaeth gyfathrebu berthnasol er mwyn i'r Awdurdod allu monitro ei berfformiad ar eu sail. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil y pwysau cynyddol sydd wedi deillio o'r pandemig. Byddai'n fuddiol pe bai modd i'r cynlluniau fod yn glir a datgan sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio twristiaeth i wella cymunedau lleol mewn ffordd gadarnhaol ac i gyfrannu at welliant net o ran ymdrechion cadwraeth a bywyd gwyllt, neu a ddylai'r camau gweithredu negydu effaith andwyol gweithgareddau twristiaeth yn unig.

## Mae'r Awdurdod yn cydweithio'n dda ag eraill, ond mae angen iddo sicrhau bod partneriaid yn gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'i ddiben statudol, a'u bod yn ei helpu i'w gyflawni

19 I hyrwyddo ac i reoli twristiaeth gynaliadwy, mae angen mynd ati ar sail partneriaeth gadarn ar draws y Parc Cenedlaethol. Gan fod nifer o grwpiau sydd wedi hen sefydlu ar gael yn y Parc yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, mae gan yr Awdurdod rôl arweiniol bwysig i'w chwarae o ran creu gweledigaeth ac agenda ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ar y cyd a'i bartneriaid ac o ran negeseuon cyhoeddus.

20 Yn anecdotaidd, mae'n amlwg bod llawer o bartneriaid yn credu bod yr Awdurdod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran ymdrin â heriau twristiaeth. Er bod niferoedd yr ymwelwyr yn cynyddu, roedd y partneriaid y buom yn siarad â nhw yn bennaf yn canmol dull yr Awdurdod o weithredu, ac fe glywsom fod gwaith partneriaeth mewn gwell sefyllfa nag y bu o'r blaen. Mae llawer o'r partneriaid yn cydnabod mai'r brif her yw taro cydbwysedd rhwng creu economi lewyrchus ar y naill law a gwarchod yr amgylchedd a chymunedau lleol ar y llaw arall.

21 Mae partneriaid yn tybio bod y Sefydliad Rheoli Cyrchfan yn grŵp hollbwysig sy'n cwmpasu'r nodau cydnaws hyn. Er gwaethaf uchelgais y Sefydliad Rheoli Cyrchfan i ddefnyddio cynaliadwyedd fel pwynt gwerthu unigryw, nid yw'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn canolbwyntio ar hyn. Er bod y cynllun yn mynegi'r heriau y mae ardal y Parc Cenedlaethol yn eu hwynebu – er enghraifft, colli gwasanaethau cymunedol o'r ardal, gordwristiaeth a'i heffaith ar y dirwedd – mae'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan yn canolbwyntio'n bennaf ar farchnata ac ar fynd ati i wireddu buddion economaidd twristiaeth, gan roi blaenoriaeth i fuddiannau ei aelodau. Er bod y rhain yn flaenoriaethau pwysig i Sir Benfro, nid ydynt yn gyfan gwbl gydnaws â dibenion statudol yr Awdurdod.

22 O'r herwydd, mae angen i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â phartneriaid ehangach, a'i gynnwys ei hun yn eu gwaith, i sicrhau bod modd iddo barhau i gyflawni ei ddibenion statudol a dylanwadu ar bob rhanddeiliad ledled y Parc Cenedlaethol. Canfuom nad yw'r Awdurdod a'i bartneriaid ond yn darparu adnoddau cyfyngedig i ddylanwadu ar drywydd y gwaith o hyrwyddo twristiaeth tu allan i'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan. Rhaid i'r Awdurdod ystyried a yw'r gwaith hyrwyddo y mae'n ymgymryd ag ef ar hyn o bryd yn effeithiol, a beth arall y mae angen iddo'i wneud i hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

## Mae angen i'r Awdurdod ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymunedau a busnesau, a dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr

### Mae'r pandemig wedi rhoi mwy o amlygrwydd i'r Awdurdod ac wedi cryfhau ei rôl o ran helpu i ddylanwadu ar ddyfodol twristiaeth yn ei ardal, ac mae angen iddo adeiladu ar hyn yn y dyfodol

23 Yn sgil pandemig COVID-19 a ddechreuodd yn 2020, daeth set o heriau unigryw i ran yr Awdurdod a'i bartneriaid. Yn ystod 2020, bu'n rhaid rhoi'r rhan fwyaf o'r gwaith i gyflawni'r cynlluniau twristiaeth gynaliadwy o'r neilltu am y tro, a hynny'n bennaf oherwydd y cyfyngiadau ar ymgysylltu wyneb yn wyneb. Ar ôl atal y gweithgareddau hyn dros dro, cafwyd ymchwydd yn nifer yr ymwelwyr gan fod mwy o bobl yn dewis cael gwyliau yn y Deyrnas Unedig oherwydd cyfyngiadau ar deithio tramor. Drwy siarad ag aelodau staff a phartneriaid, clywsom fod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu, ond hefyd fod math newydd o ymwelydd wedi dewis ymweld â pharciau cenedlaethol, fel Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, am y tro cyntaf. Mewn rhai achosion, bu i'r ffaith nad oedd yr ymwelwyr hyn yn gyfarwydd ag arferion mewn parciau cenedlaethol arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, taflu sbwriel, a gwersylla anghyfreithlon, yn ogystal â phroblemau mwy cyfarwydd, fel tagfeydd traffig.

24 Pan laciwyd y cyfyngiadau, cydnabu'r Awdurdod ei rôl o ran helpu i siapio negeseuon a chyfathrebiadau er mwyn iddynt ganolbwyntio ar dwristiaeth gynaliadwy. Yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r Awdurdod wedi dod i'r amlwg fel llais cenedlaethol yr ymddiriedir ynddo sy'n rhoi gwybod am effaith amgylcheddol andwyol cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar y dirwedd, ar yr amgylchedd naturiol, ac ar gymunedau arfordirol bach â seilwaith cyfyngedig. Pan ailagorwyd y Parc Cenedlaethol i ymwelwyr o'r tu allan, bu i'r Awdurdod hefyd achub ar y cyfle i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd drwy, er enghraifft, newid ffocws canolfannau ymwelwyr er mwyn iddynt hyrwyddo negeseuon am fioamrywiaeth, cadwraeth, a ffyrdd cynaliadwy o fyw.

25 Serch hynny, canfuom nad oedd llawer o ymwelwyr yn sylweddoli mewn gwirionedd eu bod mewn parc cenedlaethol, gyda'i rinweddau arbennig. Yn ogystal â thargedu gwybodaeth at ymwelwyr yn well, mae cyfle i'r Awdurdod ddefnyddio'i broffil cynyddol i fynd ati i ategu pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy a chyfrifoldebau'r Awdurdod, ochr yn ochr â'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

26 Er gwaethaf rôl hollbwysig yr Awdurdod o ran ymateb i effaith y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, mae angen i'r Awdurdod gryfhau'r sylfaen dystiolaeth o ran effeithiau andwyol gordwristiaeth ar y dirwedd ac ar gymunedau lleol. Drwy fesur hyn, ochr yn ochr ag effaith gadarnhaol ei weithgareddau, bydd yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i ddylanwadu ar bartneriaid a'u darbwyllo o bwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy yn y dyfodol.

## Mae'r Awdurdod yn ei chael yn anodd ymdrin ag effaith cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill sy'n annog ymwelwyr nad ydynt yn gwybod llawer am eu heffaith bosibl ar y dirwedd a warchodir

27 Bu i'r Awdurdod gyfathrebu mewn ffordd arloesol i sicrhau bod ei negeseuon yn cyrraedd pobl yn ystod y pandemig, yn enwedig pan laciwyd y cyfyngiadau teithio. Roedd hyn yn cynnwys anfon negeseuon wedi'u targedu at ymwelwyr drwy apiau ffôn i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol wedi'i theilwra i'w lleoliad yn y Parc Cenedlaethol. Bu iddo hefyd ddefnyddio enwogion i atgoffa ymwelwyr i barchu'r ardal. Drwy rai ymgyrchoedd addysg llwyddiannus ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ei hun, a thrwy grwpiau sydd wedi ennill eu plwyf, fel y Grŵp Mynediad Hamdden a'r Grŵp Siarter Awyr Agored, mae'r Awdurdod hefyd yn cryfhau ei waith i ddylanwadu ar ymwelwyr a'u haddysgu i sicrhau eu bod yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu ardaloedd sensitif.

28 Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod mo'r capasiti i herio camwybodaeth a negeseuon di-fudd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy pwysig o ran mynd i'r afael â'r hyn y mae rhai aelodau staff yn ei alw'n 'effaith Instagram', pan fydd defnyddwyr yr apiau cyfryngau cymdeithasol am efelychu'r profiadau y maent yn eu gweld mewn lluniau o lecynnau anghysbell, heb fynd i ganolfannau gwybodaeth traddodiadol, fel canolfannau ymwelwyr neu ganolfannau croeso, lle y gellir rheoli cynaliadwyedd a'r hyn a ddisgwylir gan ymwelwyr yn well. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ymweld ag ardaloedd sydd eisoes dan bwysau oherwydd twristiaeth, gall hyrwyddo answyddogol o'r fath beri mwy o niwed i dirweddau sensitif, a tharfu mwy ar gymunedau bach.

29 Serch hynny, nid dim ond y cyfryngau cymdeithasol sy'n cyfrannu at hyn. Mae rhai gwasanaethau newyddion a chyfryngau cenedlaethol, a phartneriaid lleol mewn rhai achosion, wedi hyrwyddo rhannau o'r Parc Cenedlaethol y mae'r Awdurdod a'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan wedi cytuno i osgoi eu hyrwyddo. Mae rhai aelodau staff yn pryderu bod hyn yn cyfrannu at ddirywiad bioamrywiaeth, gyda cherbydau gwersylla a chŵn yn tarfu ar safleoedd nythu, neu weithgareddau fel padlfyrddio neu arforgampau'n tarfu ar safleoedd magu morloi. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni fan hyn – ni ellir disgwyl i'r Awdurdod reoli pob achos lle mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei hyrwyddo'n allanol, ac mae gan bartneriaid cenedlaethol, fel Croeso Cymru, rôl bwysig i'w chwarae o ran hyn hefyd.

30 Mae ein hymchwil ni'n dangos bod dewisiadau ar gael i'r Awdurdod eu hystyried i helpu i wella cyrhaeddiad ac effaith ei gyfathrebiadau. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio adnoddau'r canolfannau ymwelwyr yn fwy effeithiol i hyrwyddo negeseuon strategol ymhlith ymwelwyr a'r gymuned. Gall staff sy'n gweithio yn y canolfannau hyn helpu i greu'r cysylltiad rhwng ymgyrchoedd strategol yr Awdurdod ac i gyfeirio negeseuon yn briodol, a dylid gwneud mwy i roi gwybod i'r canolfannau am hyn ac i roi hyblygrwydd iddynt gyfeirio adnoddau ar sail y pwysau ar lawr gwlad ar y pryd. Mae hefyd angen i'r Awdurdod sicrhau bod unrhyw weithgareddau hyrwyddo'n targedu'r ddemograffeg iawn er mwyn apelio i'r math newydd o ymwelwyr, a hynny i'w helpu i ategu'r pethau i'w gwneud a pheidio â'u

gwneud, ond hefyd i ddeall a oes unrhyw beth y gall yr Awdurdod ei newid o ran yr hyn y mae'n ei gynnig iddynt. I ddeall hyn, mae angen defnyddio data mewn ffordd ddeallus.

31 Fodd bynnag, mae seilwaith yr ardal yn cyfyngu i ryw raddau ar y graddau y gellir dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr. Un o'r heriau hirdymor yw lleihau'r defnydd o geir yn y Parc Cenedlaethol, ond mae'n anodd cyflawni hyn o fewn y rhwydwaith trafnidiaeth presennol. Clywsom am y cyfyngiadau oherwydd natur fregus contractau gweithredwyr bysiau a phrinder rheilffyrdd yn y Parc, ynghyd â rhai problemau hirdymor o ran adnoddau sy'n cyfyngu ar ehangu llwybrau a chynyddu amlder gwasanaethau. Mae angen i'r Awdurdod a'i bartneriaid gydweithio i sefydlu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy cyn i hwn fod yn nod realistig. Un o'r dewisiadau y mae'r Awdurdod yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â thagfeydd mewn ardaloedd twristiaeth poblogaidd yw gwasgaru pobl i leoliadau llai adnabyddus, gan ddefnyddio'r lle yn y Parc Cenedlaethol i ysgafnhau'r pwysau ar yr ardaloedd poblogaidd. Fodd bynnag, rhaid gwneud hyn yn ofalus i sicrhau na chaiff y problemau sydd i'w gweld yn yr ardaloedd poblogaidd eu hefelychu mewn mannau eraill, ac i sicrhau nad yw'n effeithio'n andwyol ar safleoedd sensitif. Mae mwy o waith i'w wneud i fesur effaith gweithgareddau gwasgaru.

32 Rhaid i ymwelwyr â'r Parc fodoli ochr yn ochr â chymunedau parhaol y Parc, a dylai preswylwyr lleol ddisgwyl gallu byw eu bywydau o ddydd i ddydd yn ddirwystr. Gan fod pwysau'n cynyddu yn sgil y cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr, gall cymunedau ei chael yn gynyddol anodd ymdopi â'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn twristiaeth. Mae'r Awdurdod yn dra ymwybodol o'r pwysau cyffredinol ar gymunedau, ond rhaid iddo wneud mwy i fapio problemau penodol sy'n effeithio ar gymunedau unigol, gan gynnal deialog agored a rhoi adborth rheolaidd i gymunedau. Rhaid iddo wneud mwy i roi sicrwydd iddynt o ran y ffordd y mae'n mynd ati i ymateb i'w pryderon. Mae'n drawiadol nad yw'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn canolbwyntio fawr ddim ar gymunedau.

## Mae ein harolwg ymhlith busnesau twristiaeth yn tanlinellu nad yw gwaith yr Awdurdod yn dylanwadu ar eu hymddygiad

33 Mae'r Awdurdod wedi meithrin perthynas gref â busnesau twristiaeth antur a grwpiau eraill â buddiant, fel Grŵp Hamdden Sir Benfro, Fforwm Arfordir Sir Benfro (er enghraifft, y Siarter Awyr Agored/y Cod Morol), yn enwedig yn ystod y cyfnod pan oedd yn ymateb i COVID-19. Roedd y Grŵp Rheoli Hamdden yn allweddol o ran cydgysylltu a monitro'r ymateb i'r cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr.

34 Ceir enghreifftiau o fentrau a ariennir gan yr Awdurdod i annog busnesau i fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o feddwl, gan gynnwys y prosiect Cysylltiadau Naturiol[7] sy'n darparu hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol am arferion rheoli tir sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Y nod yw gwella bioamrywiaeth a pheri i ymwelwyr fod yn fwy 'ymwybodol o fywyd gwyllt' drwy ei weithgareddau. Mae saith busnes yn

[7] Prosiect a ariennir gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy'r Awdurdod


cymryd rhan yn y prosiect, ond os bydd yn llwyddiannus, byddai modd ei gyflwyno i fusnesau eraill. Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithredu rhaglen ParkWise sy'n darparu hyfforddiant i fusnesau i helpu i hyrwyddo'r Parc yn gynaliadwy, a bu'n cydweithio â Chyngor Sir Penfro ar Becyn Adnoddau Digwyddiadau[8] i helpu i leihau effaith eu digwyddiadau. Fodd bynnag, bu i'r gwaith o hyrwyddo'r mentrau hyn leihau o ganlyniad i'r pandemig.

35 Mae'n bwysig nodi bod y busnesau twristiaeth y bu inni eu holi drwy ein harolwg yn gweld gwerth a phwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy. Er enghraifft, dywedodd 78% ohonynt fod twristiaeth gynaliadwy yn helpu eu busnesau, neu y bydd yn gwneud hynny, a dywedodd 76% fod gwarchod adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd. Roedd 85% hefyd yn cytuno fod parc cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n dda yn bwysig i ddenu ymwelwyr i'r ardal ac i gefnogi'r busnes.

36 Serch hynny, roedd y busnesau y bu inni eu holi hefyd yn teimlo nad ydynt mor wybodus ag y gallent fod. Er enghraifft, mae **Arddangosyn 2** yn tanlinellu bod 54% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn anghytuno â'r datganiad: 'Yn gyffredinol, rwy'n teimlo fy mod yn cael gwybod am waith Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn cael fy nghynnwys yn y gwaith hwnnw, a bod gennym berthynas waith dda.' Mae busnesau twristiaeth hefyd yn teimlo bod angen i'r Awdurdod adolygu ei gyfathrebiadau cyhoeddus a chanolbwyntio'n fwy penodol ar egluro pwysigrwydd rhanddeiliaid allweddol a'r cyfraniad y gallant ac y dylent ei wneud. Yn fras, roedd traean (34%) yr ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar draws tri pharc cenedlaethol Cymru, sef 48%.

[8] https://www.sir-benfro.gov.uk/pecyn-cymorth-digwyddiadau

**Arddangosyn 4: mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fwy o waith i'w wneud i egluro ac i hyrwyddo ei weledigaeth o ran twristiaeth gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth, Chwefror 2022

37 Mae rhywfaint o'r pwysau sy'n deillio o dwristiaeth tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Bu i rai tirfeddianwyr fanteisio ar y newid a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r rheoliadau cynllunio i estyn y cyfnod ar gyfer gwersylla heb ganiatâd cynllunio o 28 diwrnod i 56 diwrnod. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a hynny'n aml mewn ardaloedd â seilwaith gwael a gwasanaethau cyfyngedig i ymwelwyr. Cafodd hyn effaith andwyol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd.

38 Er ei fod yn flaenoriaeth strategol, nid oes gan yr Awdurdod lawer o ddylanwad dros reoli'r cynnydd mewn ail gartrefi sy'n peri bod prisiau'r farchnad dai tu hwnt i gyrraedd preswylwyr lleol a'u bod yn ei chael yn anodd prynu cartref yn eu cymunedau. Mewn rhai cymunedau, mae hyn hefyd yn cael effaith o ran erydu treftadaeth Gymraeg drwy leihau'r defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn a, thros gyfnod, mae enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu colli. Mae hon yn broblem sydd i raddau helaeth tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod, ond mae'r Awdurdod yn cyfrannu mewn meysydd eraill, er enghraifft, drwy gyhoeddi deunydd hyrwyddo dwyieithog a thrwy hybu defnydd o'r Gymraeg drwy gynnal digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn ei ganolfannau ymwelwyr. Mae hyn yn helpu i gyfrannu at gynaliadwyedd llawer o gymunedau, ac mae'n fater o bwys cenedlaethol ac yn rhywbeth sy'n effeithio ar bob un o'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru.

# Atodiad 1

## Methodoleg

I osod sail ar gyfer ein casgliadau cyffredinol, aethom ar drywydd y llwybrau ymholi a ganlyn:

- A yw'r Awdurdod wedi rhoi'r weledigaeth, yr adnoddau a'r systemau cywir yn eu lle i hyrwyddo ac i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol?
- A yw'r Awdurdod yn dylanwadu ar ymddygiad rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo ac i reoli effaith twristiaeth?

Cynhaliwyd ein hadolygiad yn ystod yr hydref 2021. Roedd ein dulliau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- cydgrynhoi'r wybodaeth a'r profiad sy'n deillio o'n gwaith archwilio.
- cynnal arolwg a hyrwyddwyd drwy Groeso Cymru ymhlith busnesau twristiaeth yn y parciau cenedlaethol. Ledled Cymru, bu i 281 busnes ymateb i'n harolwg. O'u plith, roedd 204 wedi'u lleoli o fewn ffiniau un o barciau cenedlaethol Cymru, neu'n gweithredu'n bennaf o fewn y ffiniau hynny, ac roedd 41 wedi'u lleoli yn Sir Benfro. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion sy'n ymwneud yn benodol â Sir Benfro.
- adolygu data a dogfennau pwysig.
- cyf-weld 12 swyddog a dau Aelod yn yr Awdurdod.
- cyf-weld swyddogion allweddol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro a Visit Pembrokeshire.
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 2

## Safbwynt cenedlaethol: twristiaeth gynaliadwy ym mharciau cenedlaethol Cymru

Er bod pobl yn ymweld â'r parciau cenedlaethol am sawl rheswm, defnydd hamdden ac edmygu harddwch naturiol fel rheol, mae'r parciau hefyd yn gartref i ecosystemau nad oes modd eu hail-greu a chymunedau byw. Felly, yn aml, caiff twristiaeth ei disgrifio fel gwrthddywediad dyrys, lle mae twristiaeth yn denu ymwelwyr, yn sicrhau buddion economaidd, ac yn addysgu'r cyhoedd, ond lle mae presenoldeb yr ymwelwyr hynny'n peryglu'r gwaith o warchod safleoedd diwylliannol a naturiol parc cenedlaethol. Gan fod cyfradd twristiaeth mewn parciau cenedlaethol yn cynyddu, mae twristiaeth gynaliadwy – cael hyd i ffyrdd o annog twf twristiaeth, gan warchod diwylliant a bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn ar yr un pryd – wedi dod yn fwy a mwy pwysig.

Drwy ein gwaith, rydym yn gwybod bod awdurdodau'r parciau cenedlaethol gyda'i gilydd yn meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad o reoli niferoedd mawr o ymwelwyr. Maent yn cyflogi aelodau staff amrywiol sy'n ymgysylltu ag ymwelwyr o ddydd i ddydd, gan gyfoethogi profiadau'r ymwelwyr a helpu i hyrwyddo pwysigrwydd mwynhau'r ardaloedd hyn heb effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Er y gwaith cadarnhaol hwn, yn ystod ein hadolygiad o dwristiaeth gynaliadwy, canfuom rai materion cyffredin sy'n destun pryder i awdurdodau pob un o'r tri pharc cenedlaethol.

### Rhaid i barciau cenedlaethol Cymru daro cydbwysedd rhwng annog twristiaeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol

Mae gan y tri pharc cenedlaethol ddau ddiben statudol a dyletswydd statudol. Mae'r dibenion a'r ddyletswydd yn gosod sail ar gyfer holl waith yr awdurdodau, ac maent yn fan cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau a lunnir ganddynt – **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: dibenion statudol a dyletswydd statudol awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru**

| | |
|---|---|
| Dibenion statudol | • Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| Dyletswydd statudol | • Meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol. |

Ffynhonnell: Deddf yr Amgylchedd 1995

## Mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored

Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â thri pharc cenedlaethol Cymru bob blwyddyn. Yn flynyddol, mae tri chwarter poblogaeth Cymru'n ymweld â pharc cenedlaethol i elwa ar fod allan yn yr awyr agored.

Mae hamdden a thwristiaeth yn bwysig i'r economi leol ac i iechyd a llesiant pobl. Mae hefyd angen i'r parciau cenedlaethol daro cydbwysedd rhwng y gofynion hyn a'u cyfrifoldebau dros warchod tir, anifeiliaid a chynefinoedd. Os ceir gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn, rhoddir mwy o bwys ar warchod nag ar hamdden.

Mae'r tri awdurdod wedi cydnabod bod COVID-19 a COP26 wedi rhoi'r chwyddwydr ar yr argyfwng natur – mae mwy yn ymweld â pharciau cenedlaethol nag erioed o'r blaen, ond mae cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn niweidio bioamrywiaeth ac amgylcheddau unigryw'r parciau cenedlaethol. O'i hanfod, mae taro cydbwysedd rhwng anghenion y ddau ddiben yn anodd, ac mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael yn anodd gwneud hynny.

Dywedodd yr ymatebwyr i'n harolwg ymhlith busnesau twristiaeth sydd wedi'u lleoli ym mharciau cenedlaethol Cymru wrthym fod gan yr awdurdodau rai cryfderau amlwg. Yn eu plith mae gwarchod ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol, hyrwyddo rôl 'genedlaethol – Gymreig' y parciau, a hybu gweithgareddau a dewisiadau pan fydd pobl yn ymweld ag ardal parc cenedlaethol, fel llwybrau cerdded.

## Gan mwyaf, mae busnesau twristiaeth yn rhoi gwerth ar waith y parciau cenedlaethol, ond nid ydynt yn credu eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol

Roedd y busnesau twristiaeth y bu inni eu holi drwy ein harolwg hefyd yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch gwaith awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Er enghraifft:


- roedd 95% o'r rheini a atebodd ein harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod parc cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n dda yn bwysig i ddenu ymwelwyr;
- roedd 92% o'r busnesau hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gwarchod ac amddiffyn adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd;
- roedd 72% o'r busnesau'n credu bod twristiaeth gynaliadwy'n helpu eu busnesau, neu y bydd yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, dim ond 29% o'r rheini a atebodd yr arolwg oedd yn cytuno bod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo mwynhad o'r parc cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae ein harolwg ymhlith busnesau twristiaeth yn dangos bod lle i wella'r modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ymgysylltu â'r sector preifat (**Arddangosyn 6**). Dim ond 31% o'r busnesau a atebodd ein harolwg a ddywedodd fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol wedi gofyn iddynt yn benodol am eu barn i'w helpu i siapio ei strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Tua thraean y busnesau sy'n teimlo eu bod yn cael gwybod am waith y parc cenedlaethol, a'u cynnwys ynddo, a bod ganddynt berthynas waith dda ag awdurdod eu parc cenedlaethol lleol.

Nid yw tua hanner y busnesau'n credu ychwaith fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am egluro'r hyn y gall busnesau ei wneud i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy. Dim ond 43% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol. Dim ond 18% oedd yn credu fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am roi gwybod i'r cyhoedd am bwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy – **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth Cymru, Ionawr 2022[9]

## Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yn ceisio gweithio mewn ffordd gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy

Yn ogystal â hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, mae'n bwysig bod busnesau hefyd yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy. Mae ymwelwyr heddiw'n fwy ymwybodol o'u gweithredoedd ac o'r effaith y gall y gweithredoedd hynny ei chael ar yr amgylchedd a'r gymdeithas. Felly, maent am weld mwy o fusnesau'n mynd ati i wneud rhywbeth. Bydd arferion cynaliadwy hefyd yn arbed arian yn y pen draw. Canfu ein harolwg yr hyn a ganlyn:

[9] Cawsom 281 o ymatebion i'n harolwg. O ran y cwestiynau penodol hyn, atebodd 280 y cwestiwn cyntaf, 224 yr ail, 277 y trydydd, 276 y pedwerydd, a 279 y pumed.

Mae dros 80% o’r busnesau y bu inni eu holi drwy ein harolwg yn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

Mae tua 70% o’r busnesau y bu inni eu holi yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol – e.e. annog defnydd o’r Gymraeg

Mae dros 80% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio lleihau’r gwastraff sy’n mynd i safleoedd tirlenwi, ac ailgylchu mwy o wastraff

Mae bron i 80% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ynni

Mae bron i 60% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ddŵr, neu beidio â’i wastraffu

Mae ychydig mwy na 30% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain

Mae 82% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cyflogi pobl leol yn bennaf (50%) (ystyr lleol fan hyn yw pobl sy’n byw o fewn 15 milltir at y busnes)

Mae 60% o’r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn prynu’r rhan fwyaf (75%) o’u cyflenwadau gan gynhyrchwyr lleol (ystyr lleol fan hyn yw cynhyrchwyr sydd wedi’u lleoli o fewn 30 milltir at y busnes)

## Nid oes gan awdurdodau’r parciau cenedlaethol adnoddau na phwerau i reoli niferoedd yr ymwelwyr, eu hymddygiad na’u heffaith, nac i ddylanwadu ar y pethau hyn

Yn hanesyddol, nid yw awdurdodau’r parciau cenedlaethol wedi chwarae rôl uniongyrchol o ran hyrwyddo twristiaeth na marchnata eu cyrchfannau. O ran cyfran, nid ydynt ychwaith yn berchen ar lawer iawn o dir. Maent yn un o blith nifer o gyrff sy’n ymwneud â thwristiaeth a gwarchod yr amgylchedd yn eu hardaloedd. Mae gormod o’r liferi strategol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn nwylo sefydliadau a chyrff nad ydynt yn rhannu’r un weledigaeth na chyfrifoldebau o ran gwarchod amgylchedd y parciau cenedlaethol.

Er enghraifft, nid yw cyllid na chylch gwaith awdurdodau’r parciau cenedlaethol yn cwmpasu gwaith uniongyrchol i farchnata twristiaeth yn y parciau cenedlaethol, a dim ond Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy’n sefydliad rheoli cyrchfan. Mae Arfordir Penfro ac Eryri yn cydweithio â’r cyrff lleol sy’n arwain yr agenda hon: Visit Pembrokeshire ar y naill law a Chyngor Gwynedd ar y llaw arall. I lwyddo, mae’r awdurdodau’n canolbwyntio’n bennaf ar ddylanwadu ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud, ond nid yw hyn yn hawdd ac, yn aml, nid yw’n syml.

Ar ôl dwy flynedd o gyfnodau clo a chyfyngiadau, mae’n naturiol bod busnesau twristiaeth yn awyddus i annog ymwelwyr ac i elwa’n economaidd ar gynnydd mewn twristiaeth. Fodd bynnag, gall hyn roi pwysau ar seilwaith lleol a chreu problemau anfwriadol, fel tipio anghyfreithlon, parcio anghyfrifol ar ymyl y ffordd, cynnydd yn y perygl o ddamweiniau, cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac effaith andwyol ar gymunedau lleol ym mhob un o’r parciau cenedlaethol.

Mae ein hadroddiadau am dwristiaeth gynaliadwy yn awdurdodau pob un o’r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod pob awdurdod yn cyfathrebu â’r cyhoedd ynghylch defnyddio’r parciau mewn ffordd gyfrifol. Er mwyn i’r gwaith hwn fod mor effeithiol â phosibl, dylai Llywodraeth Cymru, a sefydliadau perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ei gefnogi ar lefel genedlaethol, gan gydweithio ag awdurdodau’r tri pharc cenedlaethol.

Bu i bob un o’r tri pharc cenedlaethol dynnu sylw at broblemau parhaus sy’n bodoli ers tro o ran seilwaith lleol eu hardaloedd, yn enwedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus, parcio ceir, llwybrau teithio llesol integredig, ac ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Serch hynny, mae llawer o’r cyfrifoldebau statudol dros ymateb i’r materion hyn yn cael eu hysgwyddo gan bartneriaid, yn enwedig yr awdurdodau lleol a/neu’r heddlu, neu dirfeddianwyr preifat, ac yn aml nid oes llawer y gall yr awdurdodau eu hunain ei wneud yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus eraill yn aml yn gallu ymateb yn effeithiol ac yn gyson oherwydd pwysau ar adnoddau a phwysau o fath arall. Ac mae llawer o dirfeddianwyr preifat yn canolbwyntio cymaint, os nad mwy, ar gynhyrchu incwm yn hytrach na rheoli effaith twristiaeth ar yr amgylchedd lleol. Oherwydd cyfyngiadau cyfrifoldebau statudol awdurdodau’r parciau cenedlaethol, nid oes neb yn aml yn rhoi sylw i’r materion hyn, ac maent yn parhau i achosi problemau, yn enwedig mewn cymunedau lleol. Gan fod twristiaeth yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, mae’n amlwg y bydd y broblem hon yn dwysáu.

Dywedodd awdurdodau pob un o’r tri pharc cenedlaethol wrthym nad yw cylch cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru’n caniatáu iddynt baratoi cynlluniau hirdymor ar gyfer seilwaith i gefnogi twristiaeth gynaliadwy, na buddsoddi ynddo.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.